



RHYBUDD O GADARNHAU GORCHYMYN I DDILEU LLWYBR CYHOEDDUS 2006

DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 118

(Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 29 (Rhan) yng Nghymuned Yr Orsedd (Allington gynt)) Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ar 30 diwrnod o Awst 2006, cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y Gorchymyn a enwir uchod dan Adran 118 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Effaith y Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd yw dileu y rhan honno o lwybr troed cyhoeddus rhif 29 yng Nghymuned Yr Orsedd (Allington gynt) ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam o gyffordd y llwybrau ar fuarth Fferm Hem House ar gyfeirnod grid 33886 35571 i gyfeiriad dwyrain gogledd-ddwyreiniol cyffredinol am oddeutu 166 metr i waelod Lôn y Fuwch ar gyfeirnod grid 33901 35576 sydd o led amhendant fel y dangosir gan linell ddu amlwg rhwng pwyntiau B-C fel ar y map sydd ynghlwm wrth y Rhybudd hwn.

Mae copi o'r Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd a map o'r Gorchymyn wedi'u gosod a gellir eu gweld yn rhad ac am ddim yn Swyddfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Neuadd y Dref, Wrecsam ac yn Swyddfa Bost, Ffordd yr Orsaf, Yr Orsedd, LL12 0HE o 9.00am tan 4.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gellir cael copiau o'r Gorchymyn a'r map yn rhad ac am ddim.

Os oes unrhyw un sydd wedi'u tramgwyddo gan y Gorchymyn yn dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Ddeddf Priffyrdd 1980, fel y'i diwygiwyd, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyn dan y Ddeddf, fel y'i diwygiwyd, neu unrhyw reoliad a wnaethpwyd dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gall ef neu hi, dan baragraff 2 o Atodlen 2 y Ddeddf ac a weithredir gan baragraff 5 o Atodlen 6 y Ddeddf, ymgeisio i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o 31 Awst 2006.

Dyddiedig y 31 diwrnod hwn o Awst 2006

Trevor Coxon
Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY